

Cyngor Caerdydd

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion
Cydraddoldeb**

Adroddiad Blynyddol 2019-20

Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Other formats are available on request.

This document is available in English. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020	5
Amcan Cydraddoldeb 1: Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol a chynnwys cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn	6
Amcan Cydraddoldeb 2: Cefnogi mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad yng ngwasanaethau'r Cyngor	11
Amcan Cydraddoldeb 3: Cefnogi ymgynghori ac ymgysylltu ehangach â dinasyddion o ran y Cyngor a'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud	15
Amcan Cydraddoldeb 4: Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg	17
Amcan Cydraddoldeb 5: Rhoi cymorth i'r rhai a allai brofi rhwystrau rhag cyflawni eu potensial llawn	20
Amcan Cydraddoldeb 6: Cyfeiriad bylchau cyflog a nodwyd o ran nodweddion gwarchoddedig yn ein gweithlu	25
Amcan Cydraddoldeb 7: Adeiladu cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd	27
Atodiad 1: Adroddiad Amrywiaeth Cyflogeion 2021	
Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad	

Fel yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am bortffolio Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad cynnydd ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016-2020. Mae'r adroddiad hwn yn nodi amcanion cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn ac yn rhoi dadansoddiad o'n camau gweithredu i'w cyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Hydref 2020 a dyma'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol a'r un terfynol ar gyfer ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020. Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, rydym hefyd yn darparu proffil gweithlu'r Cyngor a bylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer 2021.

Yn ystod cyfnodau cyffredin, mae ein Hadroddiadau Blynyddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn cyfnod o ddeuddeng mis, ond oherwydd pandemig, rhoddwyd caniatâd arbennig i awdurdodau lleol ohirio cynhyrchu eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol newydd gan chwe mis. Fe wnaethom ddewis achub ar y cyfle i ohirio cynhyrchu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd, sydd bellach wedi'u cyhoeddi yn ein [Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024](#) newydd, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r dirwedd newydd a grëwyd gan COVID-19. Gyda thystiolaeth glir o effaith anghymesur y pandemig ar grwpiau poblogaeth penodol, roeddem yn awyddus i sicrhau bod ein hamcanion newydd yn canolbwyntio ar effaith y pandemig ac yn ymateb i'r effaith a'r heriau adfer a gyflwynodd i'n dinas. O ganlyniad i hyn rydym yn adrodd ar y cyfnod 31 Mawrth tan 31 Hydref yn yr adroddiad terfynol hwn yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Diben ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw nodi ein hymrwymiad a'n hamcanion i hyrwyddo cydraddoldeb yn ein dinas, drwy weithredu sy'n canolbwyntio'n fewnol ar ein sefydliad ein hunain a'n rôl fel cyflogwr mawr, ond hefyd yn ystyr ehangach rôl gwneud lleoedd y Cyngor.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, wynebodd gwasanaethau cyhoeddus heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen o ran cefnogi'r ymateb i bandemig COVID-19. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgarwch cyn y pandemig i gyflawni ein hamcanion a'n gwaith ymateb cynnar ar ddechrau'r pandemig er mwyn sicrhau rhwydi diogelwch critigol i breswylwyr sy'n agored i niwed. Mae cynghorau wedi bod ar flaen y gad o ran ymateb i bandemig, symud yn gyflym a defnyddio dulliau arloesol o gefnogi cymunedau a chadw gwasanaethau i redeg. Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu graddau'r anghydraddoldeb strwythurol ledled Caerdydd a Chymru ac mae wedi arwain at ailddyblu ein hymdrechion i fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb.

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 newydd, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, yn mynd â'n gwaith cydraddoldeb ymhellach, gan integreiddio ein hamcanion cydraddoldeb ym mhob agwedd bwysig ar ein Strategaeth Uchelgais Prifddinas a'n Cynllun Corfforaethol. Mae hyn yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol a bydd yn sicrhau ffocws di-baid ar y pethau sydd bwysicaf o ran sicrhau newid ystyrllon er mwyn creu dinas fwy cyfartal.

Y Cyng. Chris Weaver

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn dod â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 -2020 i ben ac oherwydd pandemig y Coronafeirws, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2019 – Hydref 2020.

Roedd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 yn cynnwys saith Amcan Cydraddoldeb a ddatblygwyd yn dilyn rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd gyda dinasyddion a chynrychiolwyr o grwpiau nodweddion gwarchoddedig. Cafodd y cyfranogwyr gyfle i roi eu barn a helpu i lunio'r amcanion cydraddoldeb a bennwyd gennym ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud o ran cyflawni'r amcanion hyn yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel sy'n ofynnol gan Ddyletswyddau Penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Ynghlwm wrth yr adroddiad hwn mae ein Data Monitro Cydraddoldeb Cyflogeion ar gyfer 2021, sy'n helpu i lywio ein hymdrechion cynrychioliadol yn y gweithlu ac yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth gyflawni'r amcan hwn.

Cyflwynodd pandemig y Coronafeirws broblemau newydd, brys a chymhleth i ni. Rydym wedi ymateb i'r heriau hyn drwy gydweithio digynsail ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac addasu'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ein cymunedau mwyaf agored i niwed.

Roedd effaith y pandemig yn taro'r rhai sydd eisoes yn byw gydag anfantais gymdeithasol ac economaidd galetaf. Mae'r pandemig wedi amlygu a gwaethygu'r anghydraddoldebau y mae llawer o'n cymunedau'n eu hwynebu. Roedd hefyd yn golygu addasu rhai o wasanaethau'r Cyngor i sicrhau y gellid parhau i'w darparu'n ddiogel. Mae staff y Cyngor wedi gweithio y tu hwnt i'w rolau i sicrhau bod ein dinasyddion mwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o berfformiad gweithgareddau a phrosiectau allweddol y mae'r Cyngor wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod adrodd i'w cyflwyno a straeon arfer da sy'n rhoi trosolwg o sut mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â'n partneriaid statudol, gwirfoddol a chymunedol, ac wedi ymgysylltu â'n trigolion i gyflawni mentrau cydraddoldeb sy'n cefnogi gwaith ar wella canlyniadau gwasanaethau i gymunedau amrywiol yn y ddinas.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod 2016-2020 oedd:

1. Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol a phlethu cydraddoldeb i bopeth rydym yn ei wneud
2. Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor
3. Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau
4. Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg
5. Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial
6. Mynd i'r afael â bylchau cyflog ein gweithlu sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig
7. Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd

Cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion yn 2019-20

Amcan 1 - Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Comisiynwyd amrywiaeth o becynnau hyfforddiant cydraddoldeb gan Academi Cyngor Caerdydd ac maent ar gael i bob gweithiwr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iaith Arwyddion Prydain (Lefelau 1 – 2)
- Ymwybyddiaeth Byddardod
- Anabledd a Chydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb
- Hyfforddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Gweithdy Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd
- Ymwybyddiaeth o Nam ar y Golwg

Mae'r holl hyfforddiant ar gael drwy raglen reolaidd sy'n cael ei hyrwyddo i holl staff y Cyngor ac sy'n cael ei adolygu a'i gwerthuso'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ddefnyddiol i weithwyr.

Gwnaethom hefyd ddarparu sesiwn hyfforddi Cydraddoldeb bwrpasol i wasanaethau penodol, megis ein Tîm Caffael a sesiynau hyfforddi pwrpasol ar gyfer ysgolion a'r gweithlu addysg.

Gwaith Polisi

- Mewn cydweithrediad â'r Rhwydwaith LHDT+, gwnaethom hyrwyddo ein Polisi Cyfeiriadedd Rhywiol. Mae'r polisi'n atgyfnerthu ein hymrwymiad i roi terfyn ar ragfarn a gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth.
- Parhaodd y gwaith hefyd i wella ein safbwynt ar Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall.
- Gwnaethom hyrwyddo ein Polisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o gam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn gallu eu hadnabod. Rhoddwyd gwybod i bob gweithiwr am y polisi drwy negeseuon electronig, cyfarfodydd tîm, a'r Rhwydwaith Menywod. Yn ogystal â hyn, roedd yn ofynnol i bob cyflogai gwblhau modiwl e-ddysgu: Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 'Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024'

Er mwyn paratoi ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd (2020-24), cynhaliwyd gwerthusiad mewnol o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2016-20 er mwyn gallu cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n hamcanion, ein cyflawniad hyd yma a deall ble y dylem ganolbwyntio wrth bennu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Sefydlu ein sylfaen dystiolaeth o ran cydraddoldeb yng Nghaerdydd oedd y man cychwyn ar gyfer datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024. Roedd hyn yn ceisio nodi'r materion mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol ar hyn o bryd neu sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein dinas.

Cafodd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drafft cychwynnol eu llywio gan adolygiad cynhwysfawr o'n sylfaen dystiolaeth leol, genedlaethol a'r DU gyfan ac asesiad o waith a gweithgareddau ein sefydliad, gan gynnwys ein rôl fel cyflogwr pwysig yng Nghaerdydd, ein darpariaeth o wasanaethau a'n datblygiad polisi.

Cafodd ein dadansoddiad ei lywio hefyd drwy adolygu'r camau rydym eisoes wedi'u cymryd i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 ac i gyflawni dyletswyddau penodol eraill sy'n berthnasol i gydraddoldeb. Gwnaethom hefyd gynnal ymarfer meincnodi a oedd yn asesu ein gwaith cydraddoldeb presennol yn erbyn Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol.¹

Adolygiad o dystiolaeth ac arfer Datblygwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig drwy adolygiad cynhwysfawr o dystiolaeth ac ymarfer meincnodi a oedd yn asesu ein gwaith cydraddoldeb presennol yn erbyn Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Er mwyn datblygu ein sylfaen dystiolaeth gychwynnol i lywio ein hamcanion arfaethedig, cwblhawyd:

- Dadansoddiad o ofynion deddfwriaethol cydraddoldeb
- Dadansoddiad o flaenoriaethau polisi lleol a'u cyfraniad at wneud Caerdydd yn ddinas decach a mwy cyfartal
- Asesiad o'n gwaith cydraddoldeb presennol yn erbyn Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol
- Adolygiad o setiau data cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i grwpiau nodweddion gwarchoddedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol

¹ [Fframwaith Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol | Cymdeithas Llywodraeth Leol](#)

- Dadansoddiad o ymatebion blaenorol i ymgynghoriadau'r Cyngor ar faterion cydraddoldeb
- Dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn meincnodi cynlluniau cydraddoldeb fel Mynegai Cydraddoldeb Stonewall
- Adolygiad o ymchwil a chyhoeddiadau diweddar gan gyrff cynrychioliadol a grwpiau eiriolaeth sy'n cynrychioli'r rhai â nodweddion gwarchoddedig neu i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru neu'r DU

Y broses ymgynghori

Gwahoddwyd trigolion Caerdydd, staff y Cyngor a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchoddedig a chymunedau o ddiddordeb eraill, gan gynnwys y rhai ar incwm isel, i fwydo tystiolaeth a syniadau i ni ynglŷn â'n hamcanion arfaethedig a sut i'w cyflawni.

Roedd ymarferion ymgynghori yn cynnwys nifer o grwpiau ffocws rhanddeiliaid gyda grwpiau o drigolion sydd ag ystod o nodweddion gwarchoddedig, cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig yn Arolwg Dinas Deg 2020 mewn fformatau arolwg copi caled ac ar-lein, sesiynau un-i-un gydag arweinwyr cydraddoldeb enwebedig y gwasanaeth a Seminar y Ddinas Deg, a wahoddodd arbenigwyr ar dlodi, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ymgysylltu ag adrannau'r Cyngor a rhanddeiliaid ehangach er mwyn cyfrannu at y datblygiad o'n gweledigaeth ar gyfer 2020-2024.

Yn ogystal, ymgynghorwyd â'r Tîm Polisi Corfforaethol, gan gynnwys swyddogion sy'n gyfrifol am Gynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant y Cyngor i sicrhau parhad ac integreiddio ein dyletswyddau cydraddoldeb ar draws strategaethau allweddol y Cyngor a phartneriaeth. Roedd hyn yn sicrhau bod ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020 2024 yn cynnwys mentrau mawr ar draws cyfarwyddiaethau ac yn nodi eu cyfraniad at gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb drwy gydol y strategaeth.

Dinas Deg: Caerdydd 2020

Amlinellodd arolwg Dinas Deg 2020 ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2020-2024 a gwahoddodd farn trigolion ar flaenoriaethau ar gyfer eu cyflawni. Roedd yr arolwg hwn ar gael ar-lein, mewn fformat dwyieithog, yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Cynhaliodd tudalen we benodol y cyngor yr arolwg ac esboniodd gyd-destun yr ymgynghoriad: www.cardiff.gov.uk/faircitysurvey. Roedd copïau print o lyfryn yr arolwg ar gael mewn lleoliadau cyngor a phartneriaid ledled y ddinas yn ystod y cyfnod hwn. Arddangoswyd posteri hyrwyddo ar draws yr 19 o Lyfrgelloedd a Hybiau'r Cyngor yn y ddinas er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad. Hyrwyddwyd yr arolwg i staff y Cyngor drwy ein bwletin 'Gwybodaeth Staff', sy'n mynd i 8,182 o gyfeiriadau e-bost ar draws y Cyngor. Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Mae gan gyfrifon Twitter a Facebook Cyngor Caerdydd gynulleidfa ar y cyd o 89,000 o ddilynwyr (78 mil Twitter, 11 mil Facebook).

Cynhaliwyd gwaith maes wedi'i dargedu yn y 10 lleoliad stryd fawr allweddol canlynol ledled y ddinas: Adamsdown, Butetown, Cathays, Trelái, Gabalfa, Grangetown, Pentwyn, Sblot, Llanrhymni, Trowbridge. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae cyfradd ymateb is wedi'i dangos mewn ymgynghoriadau blaenorol.

Cynhyrchwyd yr holl lenyddiaeth ymgynghori a holiaduron gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd.

Seminar Dinas Deg

Cawsom ddigwyddiad ymgysylltu ar 14 Ionawr 2020 i ymgynghori ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drafft gydag arweinwyr cydraddoldeb enwebedig o bob rhan o'r Cyngor a rhanddeiliaid allanol sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchoddedig a chymunedau o ddiddordeb.

Croesawodd y digwyddiad siaradwyr arbenigol o Sefydliad Bevan, Llywodraeth Cymru i osod cyd-destun cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru a Stonewall. Roedd ein siaradwyr hefyd yn cefnogi trafodaethau bord gron ynglŷn â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u cyflawni.

Croesawodd y Seminar 70 o gynrychiolwyr o amrywiaeth o feysydd gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, tai, datblygu economaidd a chaffael.

Darganfyddwch fwy am ein proses ymgynghori yn yr [Adroddiad Ymgynghori](#).

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel ffordd o werthuso ein cynigion i weld a oes ganddynt y potensial i effeithio ar bobl yn wahanol a chefnogi ein proses o wneud penderfyniadau.

Eu diben yw nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau presennol neu bosibl i wneud yr hyn a wnawn mor deg â phosibl. Rydym yn darparu rhaglen hyfforddi gadarn, codi ymwybyddiaeth a chynghor 1-2-1 i holl feysydd gwasanaeth y Cyngor i'w chefnogi mewn cynigion sgrinio a chwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ansawdd uchel, lle mae eu hangen.

Ail-lansiwyd ein rhaglen o hyfforddiant ac arweiniad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn 2019 a chyrraeddwyd dros 100 o swyddogion y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae ein hyfforddiant a'n harweiniad yn ceisio sicrhau bod dadansoddiad cydraddoldeb y Cyngor:

- yn amserol, yn berthnasol ac yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau;
- yn arwain at gamau gweithredu a mesurau clir ar gyfer llwyddiant;
- yn cynnwys methodoleg ar gyfer asesiadau effaith cronol a phennu cyllidebau;
- yn ystyried grwpiau perthnasol eraill nad ydynt wedi'u diogelu'n benodol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae adborth o'n hyfforddiant AEG yn dangos bod ein gweithlu wedi:

- Mwy o hyder wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Cael gwell dealltwriaeth o grwpiau cydraddoldeb yng Nghaerdydd
- Mwy o wybodaeth am ble i ddod o hyd i ddata a thystiolaeth berthnasol
- Mwy o fewnwelediad i sut y gall cynigion effeithio ar wahanol grwpiau

Roedd pob un o'n Cynigion Arbed Cyllideb a'n Cynigion ar gyfer Cais Twf hefyd yn destun Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gyda'r asesiadau a gwblhawyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Amcan 2 - Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor

Mynediad at Wasanaethau

Gwnaethom barhau â'n Rhaglen Hybiau Cymunedol gyda'r nod o alluogi trigolion Caerdydd i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu cymunedau lleol eu hunain.

Mae hybiau'n darparu gwasanaethau cydgysylltiedig a chydweithio agosach rhwng Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid, gyda phob Hyb yn darparu amrywiaeth o wasanaethau craidd y Cyngor a nifer o wasanaethau arbenigol y Cyngor a phartneriaid yng nghanol ardaloedd cymunedol sy'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mwy o fynediad at wasanaethau.

Roedd dechrau'r pandemig yn her na welwyd ei thebyg o'r blaen i Gyngor Caerdydd, gan effeithio ar bron bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen allweddol yn parhau i gael eu darparu ar gyfer pobl fwyaf agored i niwed y ddinas.

Er mwyn diwallu anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth mwyaf agored i niwed, darparwyd amrywiaeth o wasanaethau'r cyngor gennym mewn Hybiau cymunedol, gan alluogi defnyddwyr gwasanaethau i gael gafael ar gyngor a chymorth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Oherwydd COVID-19 o fis Mawrth 2020 ymlaen, rhoddwyd blaenoriaeth i wasanaethau'r Hybiau i ddiwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed.

Darparwyd gwasanaeth llyfrgell symudol a gwasanaeth llyfrgell yn gaeth i'r tŷ i'r rhai nad oeddent yn gallu cael mynediad i'w llyfrgell leol. Bu'r gwasanaeth hwn yn amhrisiadwy o ran diwallu anghenion y rhai sy'n ynysu neu'n gwarchod rhag COVID-19.

Datblygwyd Gwasanaeth Cymorth a Chyngor i Deuluoedd newydd yng Nghaerdydd fel rhan o Gymorth Cynnar, gan alluogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion.

Datblygwyd ein cynnig Rhianta Caerdydd i ddarparu dewislen ledled y ddinas o raglenni rhianta i deuluoedd â phlant 0-18 oed Caerdydd. Mae Rhianta Caerdydd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i rieni a theuluoedd ar draws Caerdydd gyda chyfleusterau meithrinfa ar gael.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Gro Brain

- Rhaglen Datblygu Rhieni
- Cryfhau Teuluoedd a
- Rhieni'n Gyntaf (Cymorth rhianta 1:1 dan arweiniad Seicoleg).

Gwnaethom hefyd dreialu dull newydd o weithio mewn ardaloedd gyda chymunedau i ddatblygu dull wedi'i dargedu o fynd i'r afael â throseddu a grymuso pobl leol i wella'r ardal y maent yn byw ynddi.

Gwnaethom recriwtio Cynghorwyr Anabledd Cymorth i Deuluoedd i ddarparu cymorth arbenigol i deuluoedd â phlentyn anabl neu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol a gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gynig Arbenigwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol i ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl emosiynol. Mae ymgynghorwyr yn sicrhau bod teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag anabledau neu anghenion ychwanegol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol ac o fudd iddynt.

Darpariaeth y Gymraeg

Mae gan Gyngor Caerdydd, fel pob corff cyhoeddus perthnasol arall yng Nghymru, ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n egluro sut y dylem ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae 'Safonau'r Gymraeg' yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn ddwyieithog, mae Cyngor Caerdydd yn parhau i ddarparu gwybodaeth reolaidd sy'n cael ei chyfleu i bob cyflogai ar draws pob cyfarwyddiaeth drwy e-byst gwybodaeth staff rheolaidd a thrwy safle mewnwyd gweithwyr y Cyngor

Rydym hefyd yn parhau i weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn ein Strategaeth Iaith Ddwieithog Caerdydd. Mae Strategaeth Ddwieithog Caerdydd yn cynnwys camau gweithredu a thargedau uchelgeisiol a phellgyrhaeddol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Caerdydd. Mae'r camau hyn yn cefnogi Cymraeg 2050 ac yn caniatáu i'r Cyngor symud yn nes at ei weledigaeth o Gaerdydd fel prifddinas wirioneddol ddwyieithog.

Mynediad at wybodaeth

Mae darparu gwybodaeth hygyrch yn helpu i wella mynediad at wasanaethau, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a galluogi pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus am bethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae darparu gwybodaeth hygyrch yn cynorthwyo cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, yn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu effeithiol, a gall leihau anghydraddoldebau a rhwystrau, gan helpu pobl i gyflawni eu potensial llawn.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, datblygwyd gwefan Cymorth a Chyngor i Deuluoedd Caerdydd fel rhan o Gymorth Cynnar, i gynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc.

Gwnaethom hefyd gynhyrchu fersiynau o ddogfennau strategol sy'n Dda i Blant i roi gwybod i blant a phobl ifanc am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Datblygwyd a diweddarwyd gwefan Awyr Agored Caerdydd gennym i gynnwys gwybodaeth am barciau a mannau gwyrdd (gan gynnwys gweithgareddau gydol y flwyddyn).

Mynediad Corfforol

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd mynediad corfforol i adeiladau ac amgylcheddau o ran galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd a'u galluogi i gyflawni eu potensial llawn. Mae gwneud mannau a chyfleusterau cyhoeddus yn hygyrch yn gorfforol i bobl anabl hefyd yn eu gwneud yn fwy hygyrch i bawb.

Er mwyn gwneud ein hamgylcheddau'n fwy hygyrch, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom wneud addasiadau i ysgolion i ddarparu amgylcheddau hygyrch i ddisgyblion a staff anabl. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys ysgolion Caerdydd yn cynhyrchu Cynlluniau Mynediad i'r Anabl sy'n ceisio sicrhau mynediad corfforol i ysgolion a bod disgyblion yn gallu manteisio ar y cwricwlwm a gwybodaeth am eu haddysg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaethom hefyd barhau i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i alluogi pobl anabl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi. Nod y cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw rhoi gwell rhyddid i unigolion symud i mewn ac o amgylch eu cartref drwy helpu tuag at y gost o addasu cartrefi i ddiwallu anghenion deiliaid anabl.

Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau hamdden GLL, i ddarparu sesiynau ar gyfer pobl anabl a grwpiau menywod yn unig a gynlluniwyd i alluogi holl drigolion y ddinas i gael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden lle gallant deimlo'n gyfforddus ac yn cael eu cefnogi.

Gweithiodd ein Tîm Rheoli Adeiladu gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau bod ystyriaethau mynediad yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith. Cafodd nifer o brosiectau allweddol eu cwblhau'n ymarferol gan gynnwys Lleiniau 2 a 3 o'r Sgwâr Canolog ar gyfer Prifysgol Caerdydd a'r BBC, sy'n hanfodol o ran mynediad at ddysgu a'r cyfryngau. Dechreuodd Llain 4, y datblygiad defnydd cymysg newydd ar

gyfer y Gyfnewidfa Drafnidiaeth, y Swyddfeydd ac unedau'r Sector Rhentu Preifat, o ddifrif ac mae'n addo sicrhau gwelliannau sylweddol i rwydwaith trafndiaeth y ddinas, gan sicrhau mwy o fynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyflogaeth a mwynhad o arlwy diwylliannol a digwyddiadau'r ddinas.

Cynyddu mynediad i ddemocratiaeth

Y cyfnod adrodd hwn, darparwyd gwybodaeth i etholwyr ar gofrestru pleidleiswyr i baratoi ar gyfer Etholiad Seneddol y DU a'r Etholiad Seneddol Ewropeaidd terfynol.

Gwnaethom sicrhau bod ein prosesau pleidleisio ar gael fel y bo modd, mewn gorsafoedd pleidleisio a thrwy ddulliau pleidleisio drwy'r post, gan alluogi etholwyr i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Gwnaethom hefyd barhau i gefnogi Cyngor Ieuenctid Caerdydd i sicrhau bod lleisiau pobl iau yn cael eu clywed fel rhan o'n prosesau gwneud penderfyniadau.

Cyngor Ieuenctid Caerdydd yw rhwydwaith swyddogol Caerdydd ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed sy'n cefnogi pobl ifanc i fod yn eiriolwyr dros newid cadarnhaol ledled y ddinas. Drwy gydol y cyfnod adrodd hwn, parhaodd y Cyngor Ieuenctid i gyfarfod yn fisol a gweithio ar flaenoriaethau a nodwyd gan bobl ifanc o bob rhan o'r ddinas gyda'r nod o wneud Caerdydd yn lle gwell i bobl ifanc fyw, gweithio a chwarae ynddo.

Amcan 3 - Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau

Ymgysylltu Dinasyddion

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ledled y ddinas yn ystod y cyfnod adrodd hwn ar gyfer ystod eang o fentrau'r Cyngor a phartneriaeth. Cyn COVID-19, cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau mewn lleoliadau yn y gymuned gan ganiatáu mynediad da i bobl leol. Roeddem yn gallu cyrraedd pobl drwy bartneriaid gan gynnwys Panel Dinasyddion Caerdydd, y Cyngor Ieuencid, Fforymau 50+ Caerdydd, Clwb Byddar Caerdydd a'n Partneriaid Trydydd Sector niferus. Gwnaethom hefyd gynnal mentrau wedi'u targedu i ymgysylltu â phobl ifanc, trigolion Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a thrigolion Arc Ddeheuol Caerdydd.

Parhawyd i gyflawni ein haddewid o dan Siarter Iaith Arwyddion Prydain Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd bob deufis gyda'r gymuned Fyddar leol, lle cafodd pobl gyfle i ddweud wrthym am eu profiadau o'n gwasanaethau, a chynnig syniadau ar gyfer gwella.

Gwahoddwyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd i leisio eu barn ar wasanaethau'r Cyngor drwy ein harolwg blynyddol Holi Caerdydd. Mae'r data y mae'r arolwg yn ei gasglu yn allweddol i helpu i lunio ein gwasanaethau a dysgu'r hyn y mae pobl yn ei feddwl mewn gwirionedd, o ran profiadau cadarnhaol a lle y gellid gwella pethau.

Buom yn gweithio gyda'n Rhwydweithiau Gweithwyr Cydraddoldeb, sef y Rhwydwaith Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, y Rhwydwaith Gofalwyr, y Rhwydwaith Anabledd, y Rhwydwaith LHDT+ a'r Rhwydwaith Menywod, i sicrhau bod pob rhwydwaith yn gallu cyfrannu at ddatblygu polisi'r Cyngor a safonau perthnasol, e.e., Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

Er mwyn meithrin dealltwriaeth o brofiadau ein cleientiaid o'n Gwasanaethau Plant, comisiynwyd prosiect Straeon Digidol gennym. Roedd hyn yn galluogi ein

defnyddwyr i roi adborth i ni a chael llais wrth lunio gwasanaethau a phenderfyniadau yn y dyfodol sy'n effeithio ar eu bywydau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch ail-gomisiynu gofal cartref a oedd yn rhoi cyfle i archwilio dulliau newydd o ddarparu gofal gyda darparwyr. Nododd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ei llythyr perfformiad blynyddol fod gofal cartref, sef conglaen unrhyw system gofal cymdeithasol, wedi'i ddatblygu'n dda yng Nghaerdydd gyda thros 50 o ddarparwyr yn cynnig gofal a chymorth.

Lansiwyd ein Strategaeth Sy'n Dda i Blant yn 2018, gydag achrediad UNICEF ar y trywydd iawn ar gyfer 2021.

Gan weithio gyda'n partneriaid, gwnaethom barhau i wneud dinas lle mae lleisiau, anghenion, blaenoriaethau a hawliau plant a phobl ifanc wrth wraidd polisiau a phenderfyniadau cyhoeddus.

Amcan 4 - Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg

Gwella'r arwyddion ar gyfer gwasanaethau cymorth troseddau casineb ac annog adrodd

Gall troseddau casineb fod yn ymosodiadau corfforol neu lafar, bygythiadau neu inswlin sy'n cael eu hysgogi gan Oedran, Anabledd, Ethnigrwydd, Cred Grefyddol neu Ddiffyg Cred, Rhyw neu Hunaniaeth Rhywedd neu Gyfeiriadedd Rhywiol y dioddefwr. Gallant fod yn unrhyw weithred droseddol y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ei hystyried yn cael ei hysgogi gan ragfarn a chasineb.

Er mwyn helpu i gynyddu'r nifer sy'n adrodd am droseddau casineb ac wrth wneud cymorth i leihau nifer yr achosion, darparwyd gwybodaeth ar ein gwefan am droseddau casineb a digwyddiadau casineb a sut y dylid rhoi gwybod am y rhain.

Gyda'n partneriaid yn y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, rhoesom drefniadau cofnodi digwyddiadau diogelwch cymunedol ar waith fel y gall partneriaid sy'n gweithio yng nghymunedau'r ddinas helpu i nodi arwyddion o berygl neu gamdriniaeth. Mae'r meysydd ffocws hyd yn hyn wedi cynnwys y digartref, diogelu mannau cyhoeddus gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a grwpiau o fudwyr sy'n agored i niwed.

Hyfforddi Cyflogeion

Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'n dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus ar draws y sefydliad, yn enwedig yr angen i roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da.

Mae ein hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb rheolaidd yn sicrhau bod yr holl staff yn deall y dyletswyddau hyn yn eang ac yn rhoi enghreifftiau clir o wahanol fathau o wahaniaethu, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ynghyd ag aflonyddu ac erledigaeth er mwyn galluogi staff i adnabod yr ymddygiadau hyn a rhoi arweiniad ar sut i'w hadrodd.

Mae ein rhaglen hyfforddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn cyfrannu at ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod ein prosesau datblygu polisi

yn ystyried ystyriaethau cydraddoldeb ac yn lleihau'r effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Cyngor ac Arweiniad

Mae grymuso gweithwyr i herio triniaeth annheg yn hanfodol i greu a chynnal amgylchedd gwaith pe bai gweithwyr yn teimlo eu bod yn gallu bod nhw eu hunain. I gefnogi hyn, rydym yn rhoi cyngor ac arweiniad ar herio triniaeth annheg i weithwyr a defnyddwyr gwasanaethau drwy sawl sianel. Mae hyn yn cynnwys ymateb i ymholiadau dros y ffôn, drwy ein gwefan fewnol ar y fewnrwyd a thrwy wefan allanol y Cyngor.

Rydym hefyd yn parhau i hyrwyddo ein Polisi Datrys i gyflogeion (a ddisodlodd ein polisïau Cwynion a Bwlio ac Aflonyddu) drwy ein safle mewnol ar y fewnrwyd.

Fel rhan o'n gwasanaethau Hyb, cynhaliwyd amrywiaeth o wasanaethau cyngori gennym mewn nifer o'n Hybiau Cymunedol a all gynnig cyngor a chymorth i breswylwyr lle maent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg fel defnyddiwr, gweithiwr neu fel cleient gwasanaeth cyhoeddus.

Caffael

Ym mis Mawrth 2017, Cyngor Caerdydd fu'r corff cyhoeddus cyntaf i lofnodi dogfen Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae 12 ymrwymiad y Cod yn cynnwys mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl. Fel rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern rydym wedi cynhyrchu Datganiad Caethwasiaeth Fodern. Mae'r datganiad yn canolbwyntio sylw ar ymchwilio i gadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gysylltiad â chaethwasiaeth fodern.

Fel rhan o'n hymrwymadau, rydym wedi annog holl staff a gweithwyr cyflenwyr a chontractwyr i chwythu'r chwiban ar gyflogaeth anfoesegol, cam-fanteisio a masnachu mewn pobl.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n cyfrifoldebau, mae gweithwyr y Cyngor hefyd yn cymryd rhan ym Modiwl Hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth ar-lein Diogelu Plant ac Oedolion (sy'n cynnwys Caethwasiaeth Fodern).

Tasglu Cydraddoldeb Hiliol

Mewn ymateb i'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a'r anghydraddoldebau a wynebwr gan gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, ymrwymodd Cyngor Caerdydd i

sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd.

Yn ystod haf 2020 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i bennu meysydd blaenoriaeth i'w hystyried gan y Tasglu.

Yn ystod yr amserlen hon, cynhaliwyd proses penodiadau cyhoeddus hefyd i ddewis aelodau o'r tasglu. Dewiswyd aelodaeth (drwy asesiad yn erbyn manyleb person a hysbysebwyd) i sicrhau cydbwysedd cynrychiolaeth ar draws nifer o sectorau:

- Y Sector Gwirfoddol a'r Gymuned
- Sefydliadau
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyflogwyr Mawr a Mentrau Bach a Chanolig (BBaCh)
- Diwylliant a'r Celfyddydau
- Addysg, gan gynnwys Addysg Bellach ac
- Addysg Uwch
- Chwaraeon
- Undebau Llafur, Plant a Phobl Ifanc

Bydd cyfarfod cyntaf y Tasglu yn cael ei gynnal yn dilyn y cyfnod adrodd hwn.

Amcan 5 - Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial

Pobl Ifanc

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu dros 219 o fusnesau lleol mewn partneriaeth â ni i hyrwyddo Addewid Caerdydd.

Uchelgais Addewid Caerdydd yw annog mwy o bobl ifanc i gael addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, i gynyddu eu cyfleoedd yn y dyfodol. Hyd yma mae 150 o fusnesau wedi gwneud addewidion penodol i gefnogi ein hysgolion a'n pobl ifanc.

Hyrwyddwyd ein cynllun Prentis Corfforaethol Iau i bobl ifanc 16+ oed ledled y ddinas. Mae'r cynllun yn darparu prentisiaethau a rolau hyfforddeion ar draws llawer o wasanaethau'r Cyngor ac yn rhoi cyfle i bobl ifanc gael gwybodaeth am y sector cyhoeddus a phrofiad yn y gweithle. Mae'r cynllun yn annog pobl ifanc i ystyried y Cyngor fel cyflogwr yn y dyfodol.

Cynorthwyodd ein gwasanaeth i Mewn i Waith gyda chyfleoedd hyfforddiant a lleoliadau gwaith i Blant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor drwy'r cynllun Hyfforddeiaeth Dechrau Disglair. Nod y cynllun yw sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael y system ofal yn cael cyfleoedd i lwyddo. Mae amrywiaeth o bartneriaid yn helpu i gyflawni Dechrau Disglair, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Ymgysylltodd dros 5,000 o bobl ifanc o bob oed, o bob rhan o Gaerdydd, â ni fel rhan o'n gwaith tuag at ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, gan gynnwys Symposiwm Caerdydd a'r Fro sy'n Dda i Blant, gan gynnwys pobl ifanc ac amrywiaeth o bartneriaid i drafod sut i gynnwys pobl ifanc ymhellach yn y gwaith o ddatblygu dull mwy seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwasanaethau.

Wrth ddatblygu Cartref Plant newydd, gwnaethom ymgysylltu â phobl ifanc â phrofiad o ofal i recriwtio tîm rheoli, sy'n cynnwys pobl ifanc a staff. Roedd pobl ifanc yn llunio'r gwasanaeth gyda'u profiadau personol o ofal ac yn chwarae rhan hanfodol yn dylanwadu ar y ganolfan newydd.

Gwnaethom gyhoeddi ein 'Cyflawni Canlyniadau Rhagorol' Strategaeth, sy'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi plant, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu sydd wedi ymuno â'r system ofal. Elfen allweddol o'r Strategaeth yw darpariaeth leol effeithiol, a thrwy hynny leihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir lle mae canlyniadau'n debygol o fod yn llai cadarnhaol.

Gwnaethom hyrwyddo cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant 30 awr am ddim, sy'n darparu 30 awr o ofal plant a darpariaeth feithrin a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant 3 a 4 oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Datblygwyd Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion ar y cyd i amddiffyn plant ac oedolion rhag y risg o niwed a cham-drin, gan ganolbwyntio sylw ar themâu newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â cham-fanteisio ar blant ac oedolion, fel caethwasiaeth fodern. Un o'r blaenoriaethau allweddol fydd gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull o ddiogelu cyd-destunol, gan gydnabod y gall y gwahanol berthnasau y mae pobl ifanc yn eu meithrin yn eu cymdogaethau, ysgolion ac ar-lein arwain at gam-fanteisio, trais a cham-drin y tu allan i'r uned deuluol.

Buom yn gweithio i gefnogi ysgolion a dysgwyr dan anfantais ddigidol, gan gaffael 2,500 MiFi neu gysylltiadau band eang bach ar gyfer dysgwyr sydd o dan anfantais ddigidol, a chyflenwi 1,550 o ddyfeisiau ychwanegol i ategu'r dyfeisiau sydd eisoes yn cael eu cyflenwi gan ysgolion.

Gweithiodd ein tîm ymweld â'r Gwasanaethau Byw'n Annibynnol i sicrhau'r gwasanaethau a'r manteision mwyaf posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth cymwys er mwyn hyrwyddo byw'n hirach ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Digartrefedd

Ym mis Gorffennaf 2020, lansiodd y **Strategaeth 'Dim Mynd Nôl'**, model newydd o ddarpariaeth ddigartrefedd, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Mae cymorth i symud ymlaen yn llwyddiannus i deuluoedd ac unigolion yn un o flaenoriaethau'r strategaeth.

Gwnaethom ailgartrefu 140 o bobl ddigartref yn nhair wythnos gyntaf argyfwng Covid, gan ddarparu llety lle'r oedd pobl yn ddiogel ac y gallent hunanynysu neu amddiffyn rhag y feirws. Sefydlwyd cyfanswm o 182 o unedau llety â chymorth yn ystod y pandemig, gan dynnu sylw at yr angen i ddarparu llety hirdymor ychwanegol gyda chymorth amlasiantaethol i ddiwallu anghenion pobl sengl ddigartref yng Nghaerdydd.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Fe wnaethom gynnal ein statws **Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd** (achrediad Lefel 2), gan weithio i sicrhau bod pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau.

Iechyd a Lles Cyflogeion

Fe wnaethom hyrwyddo ein Cyfeirlyfr Iechyd a Lles fel siop un stop o wasanaethau cymorth a gwybodaeth ar ystod eang o bynciau Iechyd a Lles a sicrhau bod hwn ar gael i weithwyr. Darperir diweddariadau Iechyd a Lles yn rheolaidd gan gynnwys cyngor ar arferion gweithio gartref o ganlyniad i bandemig Covid-19

Dinas Cyflog Byw

Enillodd Caerdydd gydnabyddiaeth fel Dinas Cyflog Byw ac ynghyd â grŵp o gyflogwyr blaenllaw yng Nghaerdydd ffurfiodd y Grŵp Gweithredu Cyflog Byw.

Lansiodd y grŵp Gynllun Gweithredu 3 blynedd i ddechrau gwneud Caerdydd, dinas Cyflog Byw. Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys –

- Cyrhaeddwyd y targed o 150 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig
- Mae cyfanswm nifer y gweithwyr a gyflogir gan gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd wedi cynyddu i 48,000
- Mae dros 61,000 o bobl yng Nghaerdydd bellach yn gweithio i gyflogwr Cyflog Byw
- Mae Caerdydd wedi cyflawni 43% o gyfanswm Cymru o 345 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig

Dinas sy'n Deall Dementia

Gyda'n cydweithwyr ar Fwrdd Partneriaeth Caerdydd, buom yn gweithio i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Deall Dementia lle gall pobl yr effeithir arnynt gan ddementia barhau i ffynnu a mwynhau bywyd.

Llwyddodd rhaglen ymwybyddiaeth ac ymgysylltu Deall Dementia y Cyngor i gyflwyno nifer o fentrau proffil uchel i godi ymwybyddiaeth ar draws y ddinas. Cafodd Neuadd y Ddinas ei goleuo ar Ddiwrnod Clefyd Alzheimer y Byd a chymerodd Caerdydd sy'n Deall Dementia ran yn yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Syrthio mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Drwy lansio modiwl e-ddysgu dwyieithog Cyfeillion Dementia, daeth Caerdydd yr Awdurdod Lleol cyntaf yn y DU i wneud hyfforddiant Cyfeillion Dementia yn orfodol ar draws ei weithlu. Mae'r arfer da hwn wedi'i rannu'n eang â sefydliadau ac Awdurdodau Lleol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Gwasanaethau

Rhoddodd ein Swyddogion Cydlyniant Cymunedol cymorth ar waith i gynorthwyo gwladolion yr UE er mwyn sicrhau eu statws mewn fudo drwy Gynllun Setliad yr UE yn dilyn Brexit.

Cododd swyddogion ymwybyddiaeth o'r broses ymgeisio a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais ynghyd â gwybodaeth am y cymorth a'r cyngor sydd ar gael.

Strategaeth Aer Glân

Datblygwyd Strategaeth Aer Glân gennym, i wella ansawdd aer a gwella canlyniadau iechyd ym mhob un o gymunedau Caerdydd. Nod y Strategaeth yw lleihau nifer y teithiau a wneir mewn cerbydau sy'n llygru yng Nghaerdydd, yn enwedig teithiau byr. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo beicio, cerdded, trafnidiaeth gyhoeddus neu gerbydau trydan fel dulliau amgen o deithio.

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Lansiwyd gwasanaeth Cyngor a Chymorth i Deuluoedd newydd yng Nghaerdydd, gan gynnig amrywiaeth o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy un pwynt mynediad. Mae'r wybodaeth a'r cymorth a gynigir yn cynnwys:

- Bywyd Teuluol
- Ymddygiad plant
- Gofal Plant
- Cymorth i Rieni
- Presenoldeb yn yr Ysgol
- Cyflogaeth, Arian a Thai
- Cyfeirio at wasanaethau eraill

Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu.

Lansiodd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu.

Diben y strategaeth yw dangos sut bydd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i anghenion a dyheadau ein hoedolion sydd ag anableddau dysgu mewn cyd-destun deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol, cynlluniau lleol ehangach a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae pob Swyddog Hyb a Chynghori Arian newydd yn derbyn hyfforddiant ar amrywiaeth o fudd-daliadau lles gan gynnwys Credyd Cynhwysol. Mae swyddogion yn meithrin dealltwriaeth o wahanol elfennau Credyd Cynhwysol a sut i wneud a chynnal hawliad. Mae swyddogion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau deddfwriaethol drwy e-bost, cylchlythyrau ac 'Uwch Friffiau'.

Gwasanaethau i Mewn i Waith

Parhaodd ein Gwasanaethau i Mewn i Waith i gefnogi pobl i gael gwaith a hyfforddiant, yn ogystal â chymorth a chynghor ynghylch Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol.

Roedd rhai o'n prif feysydd gwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Parhaodd ein gwasanaeth i Mewn i Waith i gefnogi pobl i gael gwaith a hyfforddiant.
- Ysgrifennu CV
- Ffurflenni cais a llythyrau eglurhaol
- Chwilio am Swydd
- Cymorth cyflogaeth 1-i-1
- Technegau cyfweld
- Gwneud cais am y Credyd Cynhwysol ar-lein
- Hyfforddiant sgiliau gwaith am ddim
- Cyllid gofal plant, teithio a threuliau eraill (yn dibynnu ar gymhwysedd)
- Dechrau eich busnes eich hun
- Cyfleoedd gwirfoddoli
- Cyfleoedd lleoliadau gwaith

Strategaeth Pobl Hŷn

Sicrhawyd caniatâd cynllunio ar gyfer dros 100 o fflatiau Sy'n Ofal Barod i Bobl Hŷn yn unol â'n Strategaeth Pobl Hŷn. Datblygwyd y fflatiau Sy'n Ofal Barod i ddiwallu anghenion pobl hŷn/sy'n heneiddio, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer addasiadau yn y dyfodol os oes angen. Bydd y fflatiau'n ategu ein gwaith o hyrwyddo a chynnal byw'n annibynnol.

Teleofal Caerdydd

Parhaodd Teleofal Caerdydd i ddarparu ei gyswllt ffôn 24 awr i'n gwasanaeth larwm ac ymateb cymunedol gan ganiatáu i bobl aros yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Fel rhan o Wasanaethau Digidol y Cyngor, mae Teleofal Caerdydd wedi gosod ystod o dechnoleg gynorthwyol tra'n darparu gwasanaeth i dros 4,500 o gwsmeriaid, gan ddarparu achubiaeth i lawer o bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, yn ogystal â chyplau a theuluoedd.

Amcan 6 – Mynd i'r afael â bylchau cyflog a nodwyd o ran Nodweddion Gwarchoddedig yn ein gweithlu

Polisi Tâl

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd rheoli cyflogau'n deg ac yn gyson. Mae'r penderfyniadau a wneir ynghylch cyflogau yn hanfodol i gynnal cydraddoldeb ar draws y Cyngor, sy'n cefnogi Deddf Cyflog Cyfartal 1970 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Caerdydd wedi datblygu Polisi Cyflog sy'n ceisio annog a galluogi gweithwyr i berfformio hyd eithaf eu gallu drwy'r ymrwymiad i weithredu strwythur cyflog a graddio tryloyw.

Er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn ac o strwythurau graddio, gwnaethom hyrwyddo ein Polisi Cyflog a sicrhau bod hyn ar gael drwy ein mewnrwyd fewnol a'n gwefannau allanol.

Pecyn Cymorth Gwerthuso Swyddi

